**EITEM AR YR AGENDA: 6**

**PANEL GWEITHREDOL**
**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**

**26 Hydref 2015**

**YR OPSIYNAU O RAN Y GYLLIDEB 2016-17**

**Adroddiadau gan Dawn Docx, Dirprwy Brif Swyddog Tân**

## Diben yr Adroddiad

1 Rhoi'r diweddaraf i aelodau'r Panel Gweithredol am y cynnydd a wnaed wrth ddatblygu cyllideb refeniw ddrafft yr Awdurdod Tân ac Achub ar gyfer 2016-17.

## Cefndir

2 Yng nghyfarfod diwethaf yr Awdurdod Tân ac Achub ar 21 Medi 2015, cytunodd yr Aelodau i gefnogi amcanion gwella drafft yr Awdurdod ar gyfer 2016-17 i'w cyhoeddi i ddiben ymgynghori. Mae'r ail o'r amcanion hyn yn nodi strategaeth ariannol yr awgrymir y gallai'r Awdurdod seilio ei gynllun ariannol tymor canolig nesaf arno. Y cynnig yw y dylai'r Awdurdod newid ei amcan gwella presennol, sef:

> "Gweithredu cynllun ariannol 3 blynedd ar gyfer 2014-15 i 2016-17 sy'n ariannu lefel gyfredol y gwasanaeth, ond sy'n ceisio cyfyngu ar y gost o wneud hynny i gyfateb i £1 y flwyddyn y pen yn ychwanegol."

<u>i'r canlynol</u>:

> "Gan gydnabod y gostyngiad a ddisgwylir yng nghyllid llywodraeth leol, bydd yr Awdurdod yn datblygu strategaeth ariannol 4 blynedd lle bydd rhewi'r gyllideb yn egwyddor ganolog."

3 Rhoddwyd cyflwyniadau i'r Aelodau yng Ngweithgor y Cynllun Gwella ar 20 Gorffennaf 2015 ac i'r Pwyllgor Archwilio ar 14 Medi 2015 ynglŷn â phwysau ariannol a'r rhagolygon cyllid. Yn y ddau gyfarfod cafwyd trafodaethau helaeth ynglŷn â sut i gau'r bwlch o fwy na £1.9 miliwn yn y gyllideb dros y tair blynedd nesaf. Mae'r Aelodau'n ymwybodol fod hyn yn anos fyth gan fod yr Awdurdod eisoes wedi rhewi ei gyllideb rhwng 2011-12 a 2014-15. Yn ystod y blynyddoedd hyn mae'r Awdurdod wedi gorfod dod o hyd i £3 miliwn o arbedion ac mae wedi gweld maint ei weithlu, gan gynnwys rheolwyr, diffoddwyr tân, staff diogelwch cymunedol a staff cefnogol, yn gostwng 9%.

## Gwybodaeth

4 Fel arfer, mae Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi ei setliad refeniw a chyfalaf dros dro ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf yn gynnar ym mis Hydref. Ond ni fu hyn yn bosibl eleni oherwydd, yn dilyn yr etholiad cyffredinol, cafwyd cyllideb haf a dechrau adolygiad cynhwysfawr o wariant gan Lywodraeth y DU. Nid yw'r effaith y ddau beth ar y gweinyddiaethau datganoledig yn hysbys eto. Nid yw'r Adroddiad Cynhwysfawr o Wariant yn mynd i adrodd tan 25 Tachwedd 2015. Felly ni fydd Llywodraeth Cymru'n gallu cyhoeddi ei chyllideb ddrafft tan ddechrau 2016 a bydd hynny'n oedi'r setliad dros dro ar gyfer llywodraeth leol hyd at ddyddiad diweddarach.

5 O ganlyniad i'r oedi hwn ni ellir cyflwyno adroddiad manwl wedi'i amcangyfrif o'r gyllideb i'r Awdurdod Tân ac Achub yn ei gyfarfod ar 14 Rhagfyr, er y bydd adroddiad cynnydd ar gael. Felly, mae'r Trysorydd yn argymell trefnu cyfarfod arbennig ar 25 Ionawr 2016. Y gyllideb ar gyfer 2016-17 fydd yr unig eitem ar yr agenda yn y cyfarfod hwn.

6 Drwy'r gwaith a wnaed gan Weithgor y Cynllun Gwella, mae'r Aelodau eisoes wedi dod i'r casgliad na ellir dod o hyd i unrhyw arbedion sylweddol pellach drwy ostyngiadau i linellau'r gyllideb neu gostau cefnogol ac y byddai raid eu cael drwy ostyngiadau yn y gwasanaethau.

7 Fel y gŵyr yr Aelodau eisoes, mae arbed £1 filiwn yn unig yn cyfateb i gael gwared ar naill ai un peiriant tân amser cyflawn (a 28 o swyddi diffoddwyr tân amser cyflawn) neu 8 peiriant y system RDS a hyd at 100 o swyddi cysylltiedig (pan nad oes gorsafoedd yn cael eu cau) neu 7 o orsafoedd y system RDS ledled ardal Gogledd Cymru.

8 Dylai'r Aelodau fod yn ymwybodol hefyd mai'r sefyllfa os ydynt eisiau adolygu eu penderfyniad ynglŷn â'r amcanion gwella ar gyfer 2016-17, yng ngoleuni y setliad refeniw llywodraeth leol, yw na fyddai'r amserlenni cysylltiedig yn caniatáu cynnal ymgynghoriad statudol gyda'r holl randdeiliaid er mwyn galluogi'r gostyngiadau hyn yn y Gwasanaeth yn 2016-17. Os yw gostyngiad yn y Gwasanaeth yn rhywbeth a ystyrir yna mae'n fwy realistig ceisio cael unrhyw ostyngiadau yn y gyllideb yn 2017-18.

## Risgiau a Chyfleoedd

9 Fel bob amser wrth osod y gyllideb mae'r prif risgiau i'r Awdurdod yn ymwneud â'r posibilrwydd o ddyfarniad cyflog uwch na'r disgwyl, lefelau uwch o weithgarwch, gostwng neu dynnu grantiau uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru, a gostwng neu dynnu grantiau uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru. Mae'r Prif Swyddog Tân, mewn cyfarfod gyda swyddogion y llywodraeth ar 15 Hydref, wedi ceisio cael eglurhad am y posibilrwydd fod Llywodraeth Cymru yn parhau i ariannu'r grant hirhoedlog ar gyfer cysylltiadau radio a data (Airwave). Dywedodd nad oes modd sicrhau'r grant hwn. Y gyfran o'r grant i Ogledd Cymru ar hyn o bryd yw £400k.

10 <u>Mae pob un o'r rhain yn anhysbys ar hyn o bryd.</u> Yr hyn y mae modd ei amcangyfrif yw'r gwahaniaeth rhwng cost cyllideb barhau a cyllideb wedi'i rhewi. Er mwyn ariannu costau uwch gweithwyr oherwydd 1% o ddyfarniad cyflog a'r 3.4% o gynnydd a ddisgwylir yng nghostau Yswiriant Gwladol y cyflogwr (nid yw hyn wedi cael ei gadarnhau eto), costau refeniw cyllideb gyfalaf wedi'i chymeradwyo a chwyddiant prisiau annewisol, bydd raid i'r gyllideb gynyddu £1.3 miliwn o leiaf yn 2016-17. Dylai'r Aelodau nodi mai ffigwr am y tro yw hyn ac isafswm.

11 Bu'r trafodaethau cychwynnol gydag Aelodau'r Panel Gweithredol yn edrych ar y posibilrwydd o ddefnyddio cronfeydd wrth gefn i danategu'r gyllideb ar gyfer 2016-17. Gellid defnyddio hyn i wrthbwyso'n rhannol unrhyw gynnydd angenrheidiol, a defnyddiwyd hyn i raddau llai yn y blynyddoedd a fu. Ar hyn o bryd mae gan yr Awdurdod £1.8 miliwn mewn cronfeydd cyffredinol, a byddai modd gwneud hyn.

12 Ond dyma atgoffa'r Aelodau am y risg sylweddol sy'n gysylltiedig â'r strategaeth hon oherwydd byddai angen i'r Awdurdod wneud £1.3 miliwn o arbedion y flwyddyn ganlynol cyn unrhyw arbedion ychwanegol y byddai eu hangen er mwyn cwrdd â chwyddiant cyflogau a phrisiau, a hynny dim ond er mwyn aros yn ei unfan. Hefyd, byddai'r cyllid 'yn ystod y flwyddyn' yn llai ar gyfer unrhyw alwadau annisgwyl a allai godi.

**Argymhellion**

13 Gofynnir i'r Aelodau:

(i) nodi achos yr oedi wrth osod cyllideb fantoledig ar gyfer 2016-17;

(ii) argymell i'r Awdurdod y dylid cynnal cyfarfod arbennig o'r Awdurdod Tân yn Ionawr 2016 i gytuno ar y gyllideb;

(iii) argymell i'r Awdurdod fod cyllideb 2016-17 yn cael ei llunio ar sail y lefel gyfredol o wasanaethau;

(iv) argymell bod yr Awdurdod yn ystyried tanategu cyllideb 2016-17 drwy gymryd cyllid o'r cronfeydd wrth gefn, gan ystyried y risgiau sylweddol y mae hynny'n ei greu i'r blynyddoedd nesaf.